

Croeso i'n diweddariad pwyllgor

Nod y diweddariad hwn o weithgareddau diweddar y Pwyllgor yw ehangu ymgysylltiad yng ngwaith y Pwyllgor a'ch helpu i ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd i swyddogion ac Aelodau. Cafodd ei lunio gan y tîm Clercio sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor.

Mae wedi bod yn dymor prysur arall, sydd wedi'i lywio i raddau helaeth iawn gan y pandemig. Prif ffocws gweithgarwch y Pwyllgor fu sut y dylid gweithredu o ran yr adferiad yn sgîl COVID-19. Clywodd yr Aelodau dystiolaeth hefyd gan Drafnidiaeth Cymru ar ddyfodol Masnachfaint y Rheilffyrdd, gan awdur adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar ddatblygiad economaidd Cymru, a chynhaliwyd eu sesiwn graffu flynyddol gyda Banc Datblygu Cymru. Mae'r manylion llawn ar bob un o'r rhain i'w gweld isod.

Mae llif Twitter y Pwyllgor [@SeneddESS](#) yn cynnwys ein newyddion diweddaraf, ynghyd â manylion am ymchwiliadau a chyfarfodydd a gaiff eu cynnal yn y dyfodol. Bydd o gymorth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ddyddiadau cau ymgynghoriadau, a datblygiadau a phenderfyniadau eraill a wneir yn sgîl Covid-19. Mae'r Pwyllgor yn dymuno'n dda i'w holl randdeiliaid ar yr adeg anodd hon.

Gwaith a gyflawnwyd - Tymor yr hydref 2020

Adferiad yn sgîl Covid-19

Dechreuodd y Pwyllgor dymor yr hydref gyda'i [Ymchwiliad i adferiad yn sgîl COVID-19](#): yn edrych ar sut y dylid gweithredu o ran adferiad, a sut y gallai Llywodraeth Cymru "aigodi'n gryfach".

Ar [16 Medi](#) bu panel o academyddion a melinau trafod yn ystyried effeithiau'r pandemig ar economi Cymru, ar fusnesau ac ar bobl ifanc yng Nghymru. Amlygodd yr Athro Dylan Jones-Evans o Brifysgol De Cymru bwysigrwydd sgiliau digidol, a galwodd David Hagenyck, Cyfarwyddwr Cymru y Sefydliad Dysgu a Gwaith am ragor o fuddsoddiad mewn addysg a sgiliau oedolion.

Ar [23 Medi](#), rhoddodd panel o gynrychiolwyr busnes ac undebau llafur eu barn i ni. Tynnodd Leighton Jenkins o CBI Cymru sylw at yr ansicrwydd enfawr sy'n wynebu busnesau, ac roedd Amy Bainton o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yr un mor bryderus, a thynnodd hi sylw at effaith hirdymor gweithio o bell.

Roedd gweithio o bell ac effaith hynny hefyd yn nodwedd o'n sesiwn ar [30 Medi](#) ar yr adferiad o ran trafndiaeth. Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan randdeiliaid, gan gynnwys Transform Cymru a Transport Focus, a roddodd well dealltwriaeth o ymddygiad teithwyr drwy gydol y pandemig, a'i effaith ar system drafnidiaeth Cymru. Tynnodd David Beer o Transport Focus sylw at y gostyngiad sylweddol yn nifer y teithwyr,

a phwysleisiodd pa mor bwysig oedd annog pobl i deithio unwaith yn rhagor.

Ar **7 Hydref** bu cynrychiolwyr o'r sectorau a gafodd eu taro galetaf gan y pandemig, fel manwerthu, lletygarwch a gweithgynhyrchu, yn siarad ag Aelodau am yr heriau mwyaf sy'n eu hwynebu, ac effeithiolrwydd y camau lliniaru a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru. Er bod croeso mawr i'r Gronfa Gwydnwch Economaidd, cyflwynodd y tystion ddarlun llwm, a galwyd am ragor o gamau i roi hwb pellach o ran yr adferiad.

Ar **14 Hydref**, edrychodd yr Aelodau ar sut y gallem sicrhau nad oedd unrhyw un yn cael ei adael ar ôl o ran yr adferiad. Canolbwyntiwyd ar sut i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc, a sut i sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ffynnu yn y 'normal newydd' yn y sesiwn hon. Amlygodd hyn sut mae'r pandemig wedi dwysáu anghydraddoldebau, a phwysigrwydd sicrhau bod grwpiau lleiafrifol yn cael cefnogaeth lawn ar eu hynt tuag at adferiad.

Sicrhau adferiad ar gyfer pawb oedd y ffocws hefyd ar **4 Tachwedd**, ynghyd ag 'adferiad gwyrdd'. Ymunodd Cyfeillion y Ddaear Cymru ac RSPB Cymru â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a alwodd am ragor o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn tai, band eang a seilwaith, ac roeddent i gyd yn pwysleisio bod angen mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn yr adferiad yn sgîl yr argyfwng iechyd cyhoeddus.

Ar **11 Tachwedd**, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, a'i nod yn awr yw cyflwyno adroddiad ar yr

ymchwiliad hwn yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.


Banc Datblygu Cymru

Gwnaeth y sesiwn graffu flynyddol gyda **Banc Datblygu Cymru** ymdrin â llawer o bynciau, o fenthyciadau diweddar i fusnesau i flaenoriaethau yn y dyfodol, effaith gweithio o bell, a materion cydraddoldeb.

Datgarboneiddio Trafnidiaeth

Ar 9 Medi **ymatebodd** Llywodraeth Cymru i **adroddiad** y Pwyllgor ar Ddatgarboneiddio Trafnidiaeth. Derbyniwyd pob un o'r 16 **argymhelliad** a chynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar **2 Rhagfyr**.

Caffael Cyhoeddus yn yr Economi Sylfaenol



Ar 17 Medi, cafodd y pwyllgor **ymateb** i'w **adroddiad** ar rôl caffael cyhoeddus yn yr economi sylfaenol, a chynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar **11 Tachwedd**.

Rhwystrau sy'n wynebu

cwmnïau bach sy'n adeiladu cartrefi



Cyflwynodd y Pwyllgor ddeg o argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ei [adroddiad](#).

Derbyniodd Llywodraeth Cymru naw o'r rhain ar [23 Medi](#).

Rheilffyrdd yn symud i berchnogaeth gyhoeddus

Yn dilyn y cyhoeddiad ar [22 Hydref](#) y byddai Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn cael eu trosglwyddo i berchnogaeth gyhoeddus, gwahoddodd yr Aelodau James Price, sef Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru i sesiwn frys ar y trosglwyddo, a gynhaliwyd ar [18 Tachwedd](#). Bydd y Pwyllgor yn dilyn y datblygiadau yn agos.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Yn yr un cyfarfod ar [18 Tachwedd](#), trafododd cynrychiolwyr o'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol sut y gallai'r pandemig effeithio ar ofynion Cymru o ran sgiliau, a'u hymateb i'r pandemig a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer adferiad.

Gradd-brentisiaethau

Ar 27 Tachwedd, cyhoeddodd y Pwyllgor ei [adroddiad](#) (PDF 1 MB) a oedd yn cynnwys 12 argymhelliad. Disgwylir ymateb y Llywodraeth ddiwedd mis Ionawr 2021.

Adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar Fuddsoddi Rhanbarthol

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth frifio gan awdur adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd: **“Dyfodol Datblygu Rhanbarthol a Buddsoddiad Cyhoeddus yng Nghymru, y Deyrnas Unedig”**, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor ar [25 Tachwedd](#) ei fod yn ystyried yr argymhellion o ddifrif, gan gynnwys y cynnig i greu corff Datblygu Rhanbarthol newydd.

Blaengynllun Gwaith

Gweithio o Bell: Y Goblygiadau i Gymru

Ar [7 Rhagfyr](#) lansiodd y Pwyllgor [ymgyngoriad](#) mewn cysylltiad â'i ymchwiliad i uchelgais Llywodraeth Cymru i 30% o weithwyr Cymru barhau i weithio o bell yn y dyfodol, naill ai o'u cartref neu o 'hybiau cymunedol' lleol. Bydd y Pwyllgor yn edrych yn fanwl ar effeithiau posibl y polisi ar Gymru, gan

gynnwys yr effeithiau cadarnhaol a'r effeithiau negyddol ar yr economi, busnes, canol trefi a dinasoedd, y gweithlu a sgiliau, iechyd a llesiant, anghydraddoldebau, yr amgylchedd a thrafnidiaeth. **Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 17 Ionawr 2021**, a chynhelir sesiynau tystiolaeth lafar ym mis Rhagfyr a mis Ionawr.

Craffu ar y Gyllideb:

Ar 13 Ionawr bydd y Pwyllgor yn cynnal gwaith craffu blynyddol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Comisiwn Trafnidiaeth Deddwyrain Cymru

Ar 20 Ionawr bydd y Pwyllgor yn cael sesiwn friffio gan yr Arglwydd Burns ar **adroddiad** terfynol y Comisiwn a'i argymhellion.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am raglen waith y Pwyllgor yn 2021 dilynwch ni ar **Twitter** neu edrychwch ar ein **tudalen we** i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Cylch gwaith

Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu ar 28 Mehefin 2016 i ymchwilio i ddeddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar wariant, gweinyddiaeth a materion polisi, yn cynnwys y meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafndiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Manylion cyswllt

Gallwch gysylltu â'r tîm clericio drwy e-bost: **SeneddESS@senedd.cymru**

Ffoniwch ni: **0300 200 6565**

Dilynwch ni ar Twitter: **[@SeneddESS](https://twitter.com/SeneddESS)**

Gwefan:

www.senedd.cymru/SeneddESS

Aelodau'r Pwyllgor



Cadeirydd y Pwyllgor:
Russell George AS
Ceidwadwyr Cymreig



Suzy Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Hefin David AS
Llafur Cymru



Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru



Helen Mary Jones AS
Plaid Cymru